# Trefnydd Gwybodaeth TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant - Rôl deddfwriaeth bresennol a mentrau'r llywodraeth i ddiogelu a gwella gofal a chefnogaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru. 2.4.3

cbac wjec

Mae sawl darn o ddeddfwriaeth a mentrau'r llywodraeth, sydd gyda'r nod o wella'r gofal a'r cymorth a ddarperir i blant a phobl ifanc er mwyn cyflawni eu canlyniadau personol drwy ofal, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Heb ddeddfwriaeth na mentrau'r llywodraeth, mae'n bosibl na fyddai gwiriadau i sicrhau bod y gwasanaethau gofal a ddarperir yn cyrraedd y safon ansawdd cywir. Ar ben hynny, mae'n bosibl na fyddai unigolion yn cael gofal diogel o ansawdd uchel, atebolrwydd ac na fyddai gwasanaethau gofal plant yn gwella.

Dylai sefydliadau hefyd ddarparu gwybodaeth am wasanaethau eiriolaeth megis 'Snap Cymru'. Dyma sefydliad sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni, plant a phobl ifanc a all fod ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai hyn yn caniatáu i unigolion deimlo 'pŵer cyfartal' mewn unrhyw benderfyniadau am eu gofal a'u cymorth.

Mae gan sefydliadau hefyd gyfrifoldebau o ran darparu gofal a chymorth i blant a phobl ifanc. Er enghraifft dilyn deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol y llywodraeth, defnyddio systemau fetio priodol, fel gwiriadau'r DBS 'Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd', sydd yn sicrhau y caiff eiriolaeth ei chynnig os bydd unrhyw bryderon ynghylch diogelu. Hefyd, mae'n sicrhau caiff hyfforddiant priodol a pharhaus ei gynnig er mwyn bod gan yr holl staff y wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelu. Dylai sefydliadau hefyd gydymffurfio â deddfwriaeth ar gyfrinachedd a rhannu gwybodaeth. Hefyd, dylai sefydliadau dilyn Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru. Dull cyson yw hwn sy'n helpu sefydliadau i fodloni eu cyfrifoldebau diogelu data.

Mae diogelu yn ymwneud ag amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Hefyd mae'n addysgu'r rhai o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. Mae'r ddogfen statudol, Cyfrol 5 Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg, yn nodi dwy egwyddor allweddol y dylid eu cymhwyso yn awdurdodau lleol Cymru. Yr egwyddorion hyn yw mai cyfrifoldeb pawb yw diogelu, ac dylai'r dulliau fod yn **blentyn-ganoledig.**

Mae Cyfrol 5 hefyd yn rhoi datganiadau o fathau gwahanol o gam-drin a'r dangosyddion: corfforol, seicolegol, ariannol, rhywiol ac esgeuluso.

Gall rhai plant a phobl ifanc wynebu mwy o risg o gam-drin ac esgeuluso oherwydd y ffactorau canlynol:

- straen gofalwr – gall anabledd plentyn neu berson ifanc achosi straen a all arwain at fwy o risg.
- dibyniaeth – mae plant a phobl ifanc yn dibynnu ar ofal a chymorth
- cyflyrau meddygol a seicolegol plant a phobl ifanc
- credoau crefyddol
- anghydfod teuluol
- anghenion dysgu ychwanegol.

Dyma rai o'r ffactorau a all gyfrannu at blant a phobl ifanc yn wynebu mwy o risg o niwed.

Mae gan bob gweithiwr gofal plant **'ddyletswydd i adrodd'.** Mae hyn yn golygu os bydd gweithiwr gofal plant yn adnabod yr arwyddion bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl, profi cam-drin neu esgeuluso, mae ganddynt rwymedigaeth i hyrwyddo diogelwch a lles plant a phobl ifanc a rhoi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu.